**PWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD**
**10 TACHWEDD 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell am 9.30am ddydd Mercher, 10 Tachwedd 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Haydn Bateman (Is-Gadeirydd yn Cadeirio)**
Cynghorwyr: Dave Hughes, Tim Roberts, Ralph Small, Ted Palmer – ymunodd ar ôl Eitem Rhif 11

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Julian Thompson-Hill (Cyngor Sir Ddinbych), Cynghorydd Andy Rutherford, (Cynrychiolydd Cyflogwr Cynllun Arall) a Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun)

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Phil Pumford (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau)

**YMDDIHEURIADAU**. Cynghorydd Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a'r Cynghorydd Ted Palmer a ymunodd ar ôl eitem rhif 11.
Panel Ymgynghorol: Philip Latham (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen McWilliam (Cynghorydd Annibynnol – Aon), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Sharon Carney (Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol) - gadawodd ar ôl eitem rhif 4, Paul Middleman (Actwari'r Gronfa – Mercer), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa – Mercer)

Swyddogion/Ymgynghorwyr: Neal Cockerton (Prif Weithredwr), Debbie Fielder (Dirprwy Bennaeth, Cronfa Clwyd), Karen Williams (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau) - gadawodd ar ôl eitem rhif 10, Nick Buckland (Ymgynghorydd Buddsoddiadau Cronfa – Mercer), Paul Vaughan (Cyfrifydd Cronfa Clwyd), Megan Fellowes (Dadansoddwr Actiwaraidd – Mercer – cymryd cofnodion), Ieuan Hughes (Hyfforddai Buddsoddiadau Graddedig)

Siaradwyr gwadd yn cyflwyno yn cynnwys: Michelle Phoenix (Archwilio Cymru) – gadawodd ar ôl eitem rhif 4, Hill Gaston (Mercer) – ymunodd ar gyfer eitem rhif 11 yn unig, Mary Lambe (Aon) – ymunodd ar gyfer eitem rhif 13 yn unig, Princess Okoro (Aon) – ymunodd ar gyfer eitem rhif 13 yn unig

Croesawodd y Cadeirydd Mr Cockerton fel Prif Weithredwr newydd Cyngor Sir y Fflint. Cadarnhaodd Mr Cockerton na fyddai'n ymgymryd â rôl gweinyddu'r gronfa yn yr un modd ag yr oedd Mr Everett wedi'i wneud yn y gorffennol. Er hynny, roedd gan Mr Cockerton ddiddordeb yn y Gronfa a'r modd y mae'n cael ei rheoli. Fe gyflwynodd ei hun, dywedodd mai Mrs Carney oedd Rheolwr Corfforaethol Adnoddau Dynol y Cyngor ac y byddai hi'n mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol yn ei absenoldeb o yn ogystal â Gary Ferguson a fyddai'n parhau i fynychu yn ei rôl fel Swyddog Adran 151. Dywedodd fod gan Mrs Carney lawer o brofiad o'i gwaith blaenorol a oedd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer y Gronfa. Cadarnhaodd hefyd bod Mr Owens wedi cael cais i gynnal adolygiad o faterion cyfansoddiadol ar gyfer y Gronfa.

## 22. DATGAN CYSYLLTIADAU (yn cynnwys gwrthdaro buddiannau)

Datganodd Mrs McWilliam a Mr Buckland gysylltiad yn eitem rhif 8 ar y rhaglen gan fod gan Aon a Mercer ddiddordeb cymryd rhan yng ngham nesaf caffael Marchnadoedd Preifat parhaus ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru (“WPP”).
Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad arall.

## 23. COFNODION 1 MEDI 2021

Ar dudalen 12, eglurodd Mr Hibbert ei farn ynglŷn â chynrychiolydd aelodau’r cynllun ar Bwyllgor Cydlywodraethu. Roedd yn credu ei fod yn gwahaniaethu gan y byddai cynrychiolydd aelodau’r cynllun yn gorfod mynd drwy broses recriwtio gyda swydd ddisgrifiad, manylion am yr unigolyn, terfyn amser ar aelodaeth ac ni fyddai’n cael pleidleisio, ac nid oedd unrhyw aelod arall o’r Pwyllgor Cydlywodraethu yn gorfod gwneud hyn.

Cafodd cofnodion y cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 1 Medi 2021 eu diwygio’n unol â hynny.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion cyfarfod 1 Medi 2021 gan y Cadeirydd.

## 24. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIYNAU CLWYD 2020/21

Cadarnhaodd Mr Vaughan er bod y gwaith o archwilio Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Gronfa yn mynd rhagddo, nid oedd wedi’i gwblhau eto. Y terfyn amser statudol i gyhoeddi’r Adroddiad Blynyddol oedd 1 Rhagfyr 2021. Er mwyn cyrraedd y terfyn amser yma, byddai angen dirprwyo cymeradwyaeth yr adroddiad i Gadeirydd y Pwyllgor, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a Thrysorydd y Gronfa (Swyddog Adran 151 Cyngor Sir y Fflint). Petai unrhyw broblem sylweddol yn codi o’r gwaith archwilio oedd yn weddill, byddai’n cael ei adrodd i gyfarfod brys o’r Pwyllgor cyn ei gymeradwyo.

Cadarnhaodd bod yr unig newid yn yr Adroddiad Blynyddol ers y cyfarfod diwethaf, heblaw am unrhyw faterion yn codi o’r archwiliad, yn ymwneud â nodi awdurdodaeth Llywodraeth Cymru ar faterion sy’n ymwneud â’r cap ymadael.

Roedd y Gronfa hefyd yn trafod gydag Archwilio Cymru i ystyried amserlen Adroddiad Blynyddol 2021/22 er mwyn osgoi’r angen am gymeradwyaeth ddirprwyedig cyn belled â bod hynny’n bosibl.

Diolchodd Mr Ferguson i’r tîm am eu gwaith hyd yn hyn ar yr Adroddiad Blynyddol a nododd y gofyniad am ddirprwyaeth i’w gymeradwyo.

Dywedodd Mrs Phoenix fod y lefel o fateroliaeth yn ystod yr archwiliad tua £22.2m, yn seiliedig ar werth yr asedau yn y cyfrifon drafft. Fe gadarnhaodd fod tîm Archwilio Cymru yn parhau i fod yn annibynnol o’r Gronfa. Nid oedd yr archwiliad wedi dod o hyd i unrhyw broblemau sylweddol na sylwi ar unrhyw gamgymeriadau oedd angen eu hadrodd i’r Pwyllgor. Cytunwyd ar fân

newidiadau gyda’r Gronfa, ond nid oedd yr un ohonynt yn effeithio ar Gyfrif Cronfa ddrafft na’r Datganiad Asedau Net. Fe gadarnhaodd ei bod yn fodlon â’r trefniadau i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi diweddariad y cynnydd ar Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Gronfa; a

(b) Cymeradwyodd y Pwyllgor y ddirprwyaeth i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol (yn cynnwys y cyfrifon) i Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau, Swyddog Adran 151 Cyngor Sir y Fflint (Trysorydd y Gronfa) a Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, ar yr amod nad oedd yna unrhyw newidiadau mawr yn cael eu gwneud.

## 25. DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU

Dywedodd Mr Latham fod rhai o’r eitemau wedi cael eu diwygio yn y cynllun busnes a soniodd am y pwyntiau canlynol yn ei ddiweddariad:

- Nid oedd y Gronfa wedi derbyn Adolygiad Llywodraethu da gan Adran Codi’r Gwastad, Tai a Chymunedau eto.
- Roedd paragraff 1.06 yn egluro canlyniad proses rheoli costau 2016. Serch hynny, roedd yna adolygiad parhaus gan SAB o ran y drydedd haen salwch ac o bosib, ystyried cyfraniadau aelodau ar gyflogau is. Roedd manylion yn ymwneud ag ymgynghoriad rheoli costau wedi’u hamlinellu ym mharagraff 1.07 ac fe ymatebodd y llywodraeth i hyn ar 4 Hydref.
- Roedd arolwg ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu fod i gael ei rannu gydag aelodau’r Pwyllgor iddynt ei lenwi hefyd.
- O ran paragraff 1.02, er mwyn hwyluso cynllunio ar gyfer olyniaeth, ac o ganlyniad i faterion gyda llwyth gwaith yn yr Adran Gyllid, fe argymhellodd Mr Latham fod y Gronfa yn recriwtio cyfrifydd dan hyfforddiant i swydd newydd yn Adran Cyllid y Gronfa.

Gan ymateb i gwestiwn am lefel cyflog ar gyfer y swydd newydd, fe eglurodd Mr Latham fod yr amcangyfrifiad yn seiliedig ar recriwtio tebyg yng Nghyngor Sir y Fflint.

Pan ofynnwyd sut y gallai’r Gronfa fod yn sicr y byddai’r cyfrifydd dan hyfforddiant yn parhau i gael ei gyflogi yn y Gronfa pan fyddent yn gymwys, dywedodd Mr Latham nad oedd yna unrhyw sicrwydd ond roedd yn gobeithio y byddai gweithio'n benodol gyda’r Gronfa yn ystod yr hyfforddiant yn meithrin teyrngarwch.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn ystyried y diweddariad;

(b) Cytunodd y Pwyllgor ar y newidiadau i amseru’r cynllun busnes ar gyfer eitemau G1 a G5 fel yr amlinellir ym mharagraff 1.01, mae’r ddau yn ymwneud ag oedi ar lefel genedlaethol; a

(c) Cytunodd y Pwyllgor i'r newid i'r Adran Gyllid yn cynnwys cyfrifydd y Gronfa dan hyfforddiant ar gost flynyddol o £38,000 i £46,000.

## 26. <u>DIWEDDARIAD GWEINYDDU A CHYFATHREBU</u>

Fe soniodd Mrs Williams am y pwyntiau pwysig canlynol o ran diweddariad ar weinyddu a chyfathrebu:

- Roedd y sgoriau rheoleiddio pensiwn blynyddol, sydd yn mesur data cyffredin ac sydd yn benodol i'r cynllun sydd gan y Gronfa yn erbyn hyblygrwydd penodol, wedi cael ei gadarnhau. Sgôr y data cyffredin oedd 98% (92% oedd hyn yn flaenorol). Sgôr mesur data penodol y cynllun oedd 97% (68% o'r blaen pan gafodd ei gyflwyno gyntaf). Bu gwelliant ardderchog yn y meysydd hynny fel y nodir yn glir. Serch hynny, fe all gwelliannau wastadu wrth symud ymlaen o ystyried effaith busnes fel arfer a bod natur y sgoriau sydd yn weddill weithiau yn eu gwneud yn llai pwysig i'w diweddaru, ond mae disgwyl i'r sgoriau aros yn uchel.
- Mae oedi hir yn dal i fod yng ngwasanaethau Prudential ar gyfer aelodau sydd wedi gofyn am arian i gael ei ryddhau. Serch hynny, roedd yna welliant bach ac mae Mrs Williams yn monitro'r materion hyn yn rheolaidd.
- Cyflwynwyd gwasanaeth newydd yn ddiweddar mewn cysylltiad â'r Lwfans Blynyddol a ffioedd treth Lwfans Bywyd, pan gynhaliodd Mercer weminar i aelodau'r cynllun ar y testun hwn, ac roedd y sesiwn yn ddefnyddiol iawn yn ôl yr aelodau. Mae'r Gronfa yn hapus gyda chynnwys a fformat y sesiwn. Y gobaith yw y bydd dealltwriaeth yr aelodau yn gwella a bydd disgwyliadau'r gronfa i ddarparu cyngor/arweiniad yn lleihau.
- Fe amlinellwyd y goblygiadau o ran adnoddau ym mharagraff 2.01, yn enwedig y swyddi gwag yn y tîm gweinyddu. Roedd y Gronfa'n mynd drwy rownd arall o geisio recriwtio yn y tîm gweithrediadau, ond yn anffodus, ni lenwyd unrhyw swydd yn nhîm McCloud.
- Byddai'r swyddi gwag hyn, ynghyd â hyfforddiant parhaus a gwyliau blynyddol yn cael effaith ar ddangosyddion perfformiad allweddol, disgwylir gostyngiad mewn dangosyddion perfformiad allweddol yn y chwarter nesaf.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Ystyried a nodi'r diweddariad.

## 27. <u>DIWEDDARIAD AR FUDDSODDI AC ARIANNU</u>

Rhoddodd Mrs Fielder ddiweddariad cryno ar fuddsoddi ac ariannu gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol:

- Cynhaliodd y Gronfa eu cyfarfod cyntaf gyda'r awdurdodau unedol ynglŷn â'r adolygiad prisio actiwaraidd dros dro. Cafwyd adborth cadarnhaol. Bydd y gronfa yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda nhw yn ogystal â chyflogwyr eraill drwy gydol proses brisio actiwaraidd 2022.
- Nid oedd yna newidiadau i'r gofrestr risg ond roedd y Gronfa yn disgwyl newidiad wrth symud ymlaen wrth iddynt weithio drwy'r prisiad actiwaraidd.

- Roedd Mrs Fielder yn falch o gymryd rhan mewn panel yn COP26 ar 3 Tachwedd. Trafododd y panel “mabwysiadu meddylfryd trosiannol ar gyfer y dyfodol”. Cadarnhaodd Mrs Fielder ei fod wedi bod yn boblogaidd.
- Roedd y Gronfa ar y rhestr fer ar gyfer dwy Wobr *Pensions for Puprose*; Gwobr *Impact Investing Adopter* a Gwobr *Impact Investing Social*. Roedd swyddogion yn eithriadol o brysur yn gweithio ar ddyrannu asedau marchnadoedd preifat. Roedd Mercer wedi gwneud sawl argymhelliad i’r Gronfa, yn cynnwys 11 o fuddsoddiadau posibl oedd â chyfanswm gwerth tua £140 miliwn.
- Ym mis Hydref, fe symudodd y Gronfa rhai o’u dyraniadau asedau marchnadoedd newydd i’r WPP. Mae 32% o asedau’r Gronfa wedi’u cyfuno gyda’r WPP.

Llongyfarchodd y pwyllgor Mrs Fielder am ei chyfranogiad yn COP26.

**PENDERFYNWYD:**

Ystyriodd a nododd y Pwyllgor y diweddariad.

**28. CYFUNO ASEDAU YNG NGHYMRU**

Roedd yr eitem ar y rhaglen i’w nodi ac fe ychwanegodd Mr Latham fod WPP wedi llunio adroddiad blynyddol 2020/21, gan dynnu sylw at gyflawniadau gan WPP yn ystod y flwyddyn.

Cadarnhaodd Mr Latham y bydd yna eitem ar y rhaglen yn y Pwyllgor Cydlywodraethau nesaf, pa unai i ymestyn contract y gweithredwr cyfredol am 2 flynedd arall neu beidio.

Fe ychwanegodd hefyd, fel y soniwyd gan Mrs Fielder, bod 32% o asedau’r Gronfa wedi'u cyfuno gyda’r WPP.

**PENDERFYNWYD:**

Ystyriodd a nododd y pwyllgor y diweddariad, yn enwedig rhaglen y Pwyllgor Cydlywodraethu ac adroddiad Blynyddol WPP.

**29. DIWEDDARIAD AR YR ECONOMI A’R FARCHNAD A’R STRATEGAETH FUDDSODDI A CHRYNODEB RHEOLWYR**

Cadarnhaodd Mr Harkin bod gwerth asedau’r Gronfa ar ddiwedd mis Medi tua £2.4 biliwn ac roedd y Gronfa wedi perfformio’n dda yn erbyn yr holl feincnodau. Meincnodau dosbarthiadau asedau'r Gronfa oedd yn gyrru’r perfformiad cryf, oedd dyraniad ecwiti a phortffolio dyrannu tactegol. O ystyried sefyllfa gadarnhaol y Gronfa, nid oedd yna faterion i’w hadrodd ond byddai’r portffolio yn parhau i gael ei adolygu’n rheolaidd.

**PENDERFYNWYD:**

Ystyriodd a nododd y Pwyllgor y diweddariad.

## 30. DIWEDDARIAD FFRAMWAITH RHEOLI RISG, LLWYBR HEDFAN A CHYLLID

Dywedodd Mr Middleman bod y sefyllfa ariannol wedi gwella rhywfaint ers diwedd mis Medi oherwydd perfformiad cryf yr asedau. Roedd y prif bryder yn ymwneud â rhwystrau chwyddiant, allai gael effaith andwyol ar y sefyllfa ariannol, ond ar y cyfan, roedd y Gronfa'n parhau mewn sefyllfa gadarnhaol ac o flaen ei darged oherwydd ei berfformiad cryf.

Tynnodd Mr Hibbert sylw at y drafodaeth mewn cyfarfod blaenorol y dylai'r Gronfa gyrraedd trothwy lefel cyllid 110%, yna fe fyddai yna ymgysylltu gyda'r Pwyllgor. Fe nododd Mr Middleman hyn a chadarnhaodd nad oedd y Gronfa wedi cyrraedd lefel cyllid 110% eto.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad am y term 'rhwystrau' (headwinds). Cadarnhaodd Mr Middleman bod hyn yn golygu risg chwyddiant cynyddol. Fel y soniwyd yn genedlaethol, bu cynnydd yn chwyddiant y DU dros y misoedd diwethaf oherwydd pryderon amrywiol yn cynnwys problemau cyflenwi, prisiau ynni ac ati. Nid oedd hi'n amlwg a oedd hyn yn mynd i fod yn broblem tymor byr neu dymor hir. Petai chwyddiant yn cynyddu, byddai hyn yn golygu cynnydd mewn gwerth yn rhwymedigaethau'r Gronfa (gan fod pensiynau'n gysylltiedig â chwyddiant CPI), oni bai bod yr asedau'n perfformio'n fwy cryf i gyflawni'r un enillion yn uwch na chwyddiant. Os hynny fe fyddai yna ddirywiad yn y sefyllfa. Cadarnhaodd Mr Middleman fod gan y Gronfa elfen o amddiffyniad yn erbyn chwyddiant o fewn y strategaeth llwybr hedfan.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r Fframwaith Rheoli Risg, Llwybr Hedfan a Chyllid.

## 31. MAP FFORDD BUDDSODDIADAU CYFRIFOL

Cychwynnodd Mr Latham drwy dynnu sylw at bwysigrwydd penderfyniadau yn yr adroddiad yma, yn enwedig y prif gynnig bod y Gronfa'n targedu allyriadau carbon net sero erbyn 2045 (yn hytrach na 2050) gyda 50% o ostyngiad carbon yn y portffolio erbyn 2030.

Fe atgoffodd Mr Latham y Pwyllgor mai prif amcanion y Gronfa oedd sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu budd-daliadau ac i gynorthwyo cyflogwyr i wneud y costau yma'n fforddiadwy. Caiff hyn ei wneud drwy fanteisio ar enillion buddsoddi, gan mai dyletswydd ymddiriedol y Gronfa yw gwneud hynny. Serch hynny, fe eglurodd y gellir gwneud hyn yn gyfrifol, heb gyfaddawdu ar yr enillion, drwy ystyried ffactorau ESG a materion ariannol eraill megis chwyddiant a risg cyfraddau llog.

Fe ychwanegodd Mr Latham y byddai'r Gronfa angen diweddaru'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi ('ISS') i adlewyrchu'r ymrwymiadau i uchelgais sero net ac ymgynghori gyda chyflogwyr ynglŷn â'r diweddariadau arfaethedig yn unol â'r rheoliadau. Yn amodol ar gytuno ar y cynigion yn yr adroddiad, bydd y Gronfa yn lansio ymgynghoriad cyflogwr yn y Cyd-gyfarfod Ymgynghorol Blynyddol ym mis Tachwedd. Roedd yn credu y dylai'r Gronfa fod yn ystyried buddsoddi pan roedd yna lwybr trosiannol clir i ffwrdd o asedau sy'n ddwys o ran

carbon ac fe ddylai fod yn edrych ar reoli amlygrwydd i asedau allai gael eu heffeithio'n negyddol neu'n colli gwerth oherwydd trawsnewid i garbon isel.

Roedd y Gronfa hefyd wrthi'n trafod gyda WPP dros greu is-gronfa ecwiti byd-eang cynaliadwy, ond fe allai hyn gymryd 12 mis arall i'w greu.

Cyflwynodd Mr Latham Mr Gaston a fyddai'n arwain y Pwyllgor drwy'r dadansoddiad.

Fe aeth Mr Gaston drwy gyflwyniad gan egluro'r cynigion, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Pwrpas y dadansoddiad oedd helpu i osod targedau sero net y Gronfa ac i edrych yn fwy manwl ar y portffolio ecwiti a restrir i osod targedau gronynnog dros dro i helpu i leihau dwysedd carbon.
- Y cynnig oedd y byddai'r Gronfa yn cefnogi cynhesu cyfyngedig i o dan 2$^{o}$C, yn unol â Chytundeb Paris. Roedd disgwyl i ddifrod corfforol, yn enwedig senarios o dan 3$^{o}$C a 4$^{o}$C danseilio enillion buddsoddiad y Gronfa.
- Fel Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, roedd y Gronfa cael ei chraffu o ystyried y lefel uchel o dryloywder, bydd budd-ddeiliaid ehangach ac aelodau eisiau gwybod beth mae'r Gronfa'n ei wneud i leihau risg hinsawdd.
- Roedd technoleg (megis cost is technolegau adnewyddadwy) a datblygiadau yn y farchnad (megis marchnadoedd yn gwobrwyo cwmnïau cynaliadwy dros gwmnïau sy'n seiliedig ar danwydd ffosil) yn golygu bod risgiau a chyfleoedd trawsnewid carbon isel yn berthnasol i'r gronfa heddiw ac i'r dyfodol.
- Roedd tudalen 244 yn amlinellu fframwaith Dadansoddiad ar gyfer Trawsnewid Hinsawdd Mercer. Roedd y dadansoddiad yn dangos rhaniad y portffolio rhwng y cwmnïau llwyd (cwmnïau dwys o ran carbon, cwmnïau â photensial newid isel), y cwmnïau gwyrdd (cwmnïau dwysedd isel a chwmnïau â photensial newid uchel) a'r cwmnïau yn y canol (cwmnïau amrywiol o ran dwysedd carbon a photensial newid).
- Roedd Cam 3 ar dudalen 244 yn dangos y gellir defnyddio'r Fframwaith i osod targedau datgarboneiddio i 2025 a 2030. Byddai Cam 4 yn cynnwys gosod cynlluniau pontio i'w rhoi ar waith.
- Roedd tudalen 245 yn ymdrin ag ychydig o'r metrigau allweddol sydd yn ategu'r dadansoddiad. O ran gosod targedau, cynigir y dylai'r Gronfa ganolbwyntio ar y metric allyriad absoliwt ar waelod y sleid.
- Roedd tudalen 246 yn egluro'r diffiniadau ar gyfer sgôp allyriadau 1, 2 a 3. Nid oedd allyriadau sgôp 3 wedi'u cynnwys wrth osod targed ar hyn o bryd oherwydd ansawdd y data a phroblemau argaeledd.

Roedd crynodeb o gynigion y Gronfa i'w hystyried ar dudalennau 237 a 238. Y prif argymhellion oedd bod y gronfa'n targedu sero net erbyn 2045 ac yn mabwysiadu cyfanswm targed y Gronfa o 50% o ostyngiad dwysedd o ran carbon erbyn 2030. Rhestrodd Mr Gaston weddill yr argymhellion o dudalen 237 a 238. Ar gyfer targedau stiwardiaeth, eglurodd Mr Gaston mai'r cynnig erbyn 2025, oedd naill ai bod 70% o allyriadau'r Gronfa'n cael eu hariannu drwy ymgysylltu gan Robeco neu gynnwys cwmnïau a oedd eisoes wedi'u halinio â

llwybr sero net. Roedd hyn yn cynnwys targed pellach i gynnwys 90% o gyfanswm allyriadau'r Gronfa wedi'u hariannu erbyn 2030.

Fe atgoffodd Mr Hibbert fod Mr Gaston wedi gofyn mewn cyfarfod blaenorol a oedd modd cynnwys gwerth arian ar y ffigurau a nodwyd yn yr adroddiad, yn ogystal â chanran. Roedd yn credu y byddai'n haws adnabod y cyfalaf sy'n cael ei fuddsoddi a symud i ffwrdd o gwmnïau sy'n ddwys o ran carbon. Cadarnhaodd Mr Gaston y byddai'n gallu gwneud hyn wrth symud ymlaen.

Tynnodd Mr Gaston sylw ar y canlynol:

- tudalen 249 - fe eglurodd bod 20% o ddaliadau'r Gronfa wedi cael eu dadansoddi ar gyfer y gwaith yma a byddai'r ffigur yma'n cynyddu dros amser.
- tudalen 250 - roedd yn dangos fod cronfeydd ecwiti presennol y Gronfa yn gyfrifol am tua 46,000 tunnell o allyriadau $CO_2e$ ac y byddai targed sero net 2045 yn seiliedig ar allyriadau sgôp 1 a 2.
- Yn unol â'r siart ar ochr chwith tudalen 252, ac yn unol â'r dadansoddiad llwyd/yn y canol/gwyrdd, roedd 94% o ecwiti'r Gronfa oedd wedi'u rhestru yn y categorïau asedau yn y canol ac roedd 3% o ecwiti'r Gronfa oedd wedi'u rhestru yn gwmnïau gwyrdd (er enghraifft, Tesla). Mae 2.6% mewn cwmnïau llwyd, sydd yn ddwys o ran carbon ac yn cael eu dominyddu gan ddaliadau marchnad newydd. Roedd y siart ar ochr dde y dudalen yn amlinellu cyfraniad gwirioneddol i ddwysedd carbon y daliadau.
- tudalen 254 - yn dangos y tri llwybr datgarboneiddio gwahanol. Gan ymateb i gwestiwn gan Mrs McWilliam, cadarnhaodd Mr Gaston fod y llwybr allyriadau a gynrychiolir gan y llinell wyrdd ar gyfer Ecwitïau a restrir, ac roedd y llwybr allyriadau a gynrychiolir gan y llinell biws gyfystyr â chyfanswm targed datgarboneiddio'r Gronfa.

Roedd yna nifer o brif argymhellion ar gyfer y portffolio ecwiti a restrir. Fe argymhellwyd mabwysiadu targed oedd yn gyson â lleihau allyriadau 35% erbyn 2025 a 68% erbyn 2030. Yn ogystal, roedd yna darged arfaethedig i leihau datguddiadau olew a nwy 70% erbyn 2025 a 90% erbyn 2030. Roedd targedau stiwardiaeth eisoes wedi'u disgrifio uchod. Yn olaf, cynigiwyd targedu bod â 30% o'r portffolio ecwiti a restrir mewn cwmnïau gwyrdd a chynaliadwy erbyn 2030.

Cyn belled â bod Mrs McWilliam yn ymwybodol, y Gronfa oedd y cyntaf yng Nghymru i osod targedau datgarboneiddio mor fanwl â hyn. Serch hynny ar gyfer unrhyw beth a oedd o fewn dyraniadau asedau WPP, mae'r Gronfa'n dibynnu ar y WPP a Robeco i gyflwyno'r strategaeth hon ar gyfer y Gronfa. Roedd hyn yn risg wedi'i restru ar y gofrestr risg, o ystyried na all y Gronfa gyflawni amcanion penodol gan fod y WPP methu cyflwyno popeth oedd ei angen. Roedd Mrs McWilliam yn gobeithio y byddai Cronfeydd eraill yng Nghymru yn dilyn arweiniad Cronfa Bensiynau Clwyd drwy fabwysiadu eu targedau ar gyfer datgarboneiddio Dywedodd Mr Latham fod y gronfa yn rhannu ei meddyliau a chredoau gyda WPP. O ganlyniad, roedd cynnydd is-gronfa ecwiti byd-eang gweithredol gynaliadwy gyda WPP yn mynd rhagddo. Cadarnhaodd Mrs Fielder fod y Gronfa wedi dadansoddi'r ymgysylltu roedd Robeco wedi'i wneud ar ei rhan ac fe'u gwahoddwyd i gyfarfodydd a diweddariadau rheolaidd gyda nhw o ran buddsoddi cyfrifol. Bydd y Gronfa'n parhau i siarad ar y mater yma wrth symud ymlaen.

Rhoddodd Mr Gaston grynodeb o'r argymhellion ar dudalennau 257 a 258. Petai'r Gronfa'n ymgysylltu â chwmnïau llwyd ac os nad oedd yna welliant dros amser, roedd o'n credu fod yna botensial wrth gydweithio gyda WPP a Robeco, i gyflwyno gwarediad dewisol. Pwysleisiodd Mr Gaston bwysigrwydd cyfathrebu unrhyw argymhellion y cytunwyd i'r WPP ac i reolwyr buddsoddi.

Fe ychwanegodd Mr Latham fod rhai budd-ddeiliaid eisiau cyflawni sero net erbyn 2030 (yn hytrach na 2045) a gofynnodd beth fyddai effaith hyn. Cadarnhaodd Mr Gaston o ystyried y byd buddsoddi, roedd targed sero net yn llawer cynt na 2045 yn afrealistig os oedd y Gronfa dal eisiau cynnal strategaeth fuddsoddi wedi'i arallgyfeirio. Os na fyddai'r gronfa yn cynnal strategaeth wedi'i arallgyfeirio a mabwysiadu targed sero net caled, fe fyddai'n debygol o gyfaddawdu ei allu i gyflawni'r amcanion enillion. Fe gytunodd ac ychwanegodd Mr Middleman os nad oedd y Gronfa'n cyflawni'r amcanion enillion buddsoddi, fe fyddai yna gynnydd mewn cyfraniadau i gyflogwyr (os bydd popeth arall yn gyfartal). Felly roedd hi'n hanfodol i wneud hyn mewn modd trefnus wedi'i fesur gyda thargedau uchelgeisiol, ond hefyd drwy sicrhau na fyddai hyn yn effeithio ar iechyd ariannol y Gronfa.

Roedd Mr Hibbert yn deall pwynt Mr Middleman a Mr Gaston, ond gofynnodd a oedd hi'n bwysig i gadw tua £22 miliwn o amlygrwydd i danwydd ffosil yn y portffolio ecwiti a restrir (roedd y Gronfa gyffredinol wrth tua £2biliwn) er mwyn cynnal portffolio o asedau amrywiol. Dywedodd Mr Gaston nad oedd y cwmnïau llwyd, oedd yn gwmnïau dwys o ran carbon, yn gwmnïau tanwydd ffosil ecsgliwsif. Dywedodd mai dull y gronfa oedd ymgysylltu gyda'r cwmnïau llwyd a'u gwthio i newid i fodelau busnes cynaliadwy, carbon isel. Yn rhan o'r ISS, mae'r gronfa yn agored i ymwrthod dewisol, felly mewn 5 i 10 mlynedd, efallai mai amlygrwydd bach fydd gan y Gronfa i gwmnïau llwyd. Cadarnhaodd Mr Latham fod disgwyl i'r Gronfa fuddsoddi yng nghronfa ecwiti cynaliadwy byd-eang WPP, yr oedd disgwyl iddynt fod ag amlygrwydd isel i danwydd ffosil a chwmnïau llwyd.

Dywedodd Mr Hibbert ei bod hi'n hanfodol yma i roi gwerth ariannol felly bod y newid mewn cyfalaf yn hawdd i'w adnabod. Cadarnhaodd Mr Buckland y byddai hyn yn cael ei wneud ar gyfer dadansoddiad yn y dyfodol.

Trafododd Mr Latham y newid o ecwiti marchnad newydd ac ychwanegodd fod y Gronfa wrthi'n newid hyn i'r WPP. Roedd portffolio marchnad newydd WPP yn 25% fwy effeithlon o ran carbon na'r meincnod. Byddai rhagor o fanylion yn cael ei gadarnhau ar hyn ar ôl y dadansoddiad y flwyddyn nesaf.

Fe ailadroddodd Mr Gaston yr argymhellion ac roedd y Pwyllgor yn hapus gyda'r argymhellion, gan nodi y byddai'r targedau'n cael eu ymestyn i gynnwys gwerthoedd ariannol er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn ystyried y dadansoddiad yng ngoleuni targed sero net erbyn 200 a gytunwyd yn flaenorol;

(b) Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn cytuno ar bob un o’r cynigion ym mharagraff 1.08 yr adroddiad, yn benodol targedu sero net erbyn 2045 - amserlen fwy uchelgeisiol; a

(c) Bod y Pwyllgor yn cytuno bod Datganiad Strategaeth Fuddsoddi yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r ymrwymiad ar gyfer ymgynghori gyda Chyflogwyr y Gronfa.

## 32. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a’r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 ac 18 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).

## 33. MAP FFORDD BUDDSODDIADAU CYFRIFOL

Cafodd yr eitem hon ar y rhestr ei chyflwyno ac ni chafodd cwestiynau yn ymwneud â’r elfen benodol yma ei thrafod yn breifat.

## 34. SEIBERDDIOGELWCH YNG NGHRONFA BENSIYNAU CLWYD-CYFRINACHOL

Cafodd yr eitem hon ei chyflwyno a’i thrafod.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi’r adroddiad ar gyfer Seiberddiogelwch yng Nghronfa Bensiynau Clwyd am gasgliadau cychwynnol oedd yn ymwneud â rheoli risgiau seiber.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu ac roedd yn gobeithio gweld pawb yng Nghyd-gyfarfod Ymgynghorol Blynyddol ym mis Tachwedd ac mewn digwyddiadau hyfforddi yn y dyfodol. Cynhelir cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor ar 9 Chwefror 2022. Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm.

……………………………………

**Y Cadeirydd**